

Llais Llandyrnog Voice

 llandyrnognews@gmail.com  [@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Rhagfyr 2020 – Cyfrol 6 – Rhifyn 3



Mae'n siwr bod Nadolig eleni'n mynd i fod yn wahanol i'r arfer. Oherwydd hyn, bydd sawl un ohonon ni'n cofio'n dyddiau Nadolig pan oedden ni'n iau, gan ddechrau gyda drama'r Nadolig yn yr ysgol a digwyddiadau yn yr eglwys neu'r capel.

Pan oeddwn i'n ddisgybl yn yr ysgol gynradd yn Llangefni, Mista roedd pawb yn galw'n prifathro. Fo hefyd oedd arweinydd côr yr ysgol ac felly, bu'n rhaid i mi fod yn nrama geni'r Nadolig yn yr eglwys hefyd.

Roedd hi'n gyfnod hapus a diofal iawn, pawb yn helpu'i gilydd i addurno ystafelloedd dosbarth mewn ysgolion yn ogystal â'n cartrefi – gwneud ein cadwynau papur ein hunain, a phawb yn cystadlu i wneud yr un hiraf.

Bydden ni'n canu carolau o gwmpas y dref, fel arfer i godi arian at elusen leol. Y prif ddigwyddiad yn yr eglwys oedd Gŵyl y Geni a'r gwasanaeth carolau. Dydw i ddim yn cofio'r un cyntaf i mi gymryd rhan ynddo, ond mae pobl wedi sôn amdano dros y blynyddoedd ac wedi creu rhyw frith gof. Mae'n debyg 'mod i wedi canu 'Iesu Faban' ar fy mhen fy hun yn y gangell, gyda Mr Jones yn eistedd yn y sedd flaen, yn arwain ac yn annog pawb i ymuno â mi.

Wedyn fe fûm i'n angel ychydig o weithiau, wedyn fe ges i fynd i'r côr gyda'r merched hŷn. Roedd hi'n gyfnod hapus iawn.

Dymunaf Nadolig Llawen iawn i chi i gyd ac i chi fod yn iach ac yn ddiogel yn 2021.

Wyn Wilson

*Nadolig Llawen
i'n holl ddarllenwyr
a diolch o galon
am eich cefnogaeth*



Pytiau newyddion y pentre

Fe fyddwch wedi sylwi nad oes boreau coffi na digwyddiadau eraill wedi bod yn ddiweddar oherwydd COVID-19, ac mae'n amheus a fydd unrhyw beth yn digwydd yn y dyfodol agos chwaith. Felly mae'r Cyngor Cymuned wedi defnyddio'r amser hwn i beintio'r ystafell ac i gael carped newydd. Rydym yn ddiolchgar iawn i Rupert o Coastal Carpets, sy'n byw yn ein plith yma yn Llandyrnog – mae wedi darparu'r carped newydd am bris rhesymol iawn fel cyfraniad at y pentref.

Llongyfarchiadau i Huw Jones, Fferm Glanywern ar gael MBE yn rhestrau anrhydeddau pen-blwydd y Frenhines, am wasanaethau i'r economi yng Nghymru. Mae Huw yn un o gyfarwyddwyr y cwmni peirianeg sifil hynod lwyddiannus, Jones Bros.

Ddechrau mis Tachwedd cafodd Jones Bros wobwr Aelod y Flwyddyn – Cymru gan y Building Safety Group am yr arfer gorau mewn iechyd a diogelwch yng Nghymru. Enillodd y cwmni y wobwr hon yn 2018 hefyd.

Nod y Building Safety Group yw helpu sefydliadau i leihau'r perygl o ddigwyddiadau yn y gweithle a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw ar yr holl reoliadau iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.

Croeso i Mike a Nia Whelan a'r teulu yn ôl i'r pentref i fyw ac i'w cartref ym Mharc Ty'n Llan; i Dave, Jackie a Victoria i Greenfields, ac i Jack a Fran sydd wedi dod i fyw i Helenfa.

Dymuniadau gorau i Rob McShea, Greenfields gynt, sydd wedi symud i Ddinbych, ac i Joyce, Helenfa gynt, yn ei chartref newydd yng Nghae Topyn, Dinbych.

Dymuniadau gorau hefyd i Gwyn Rowlands, Dregoch, ar ei ymddeoliad o Cadwyn Clwyd.

Cydymdeimlwn â Dylan ac Ian a'u teuluoedd ar golli'u tad, Tecwyn Roberts, Wern Fechan. Roedd Tec yn weithgar iawn yn ein cymdogaeth a bydd colled fawr ar ei ôl.

Anfonwn ein cofion hefyd at Ann Ward a'i merched Lesley, Susan a Jan. Bu farw Les Ward yn dawel gartref, yng nghwmni ei ferched.

Rhoddwyd y llun isod ar dudalen Facebook Cymuned Llandyrnog gan Sally Jackson. Llun o'i thad, Charlie Wills, a gadwai'r siop ar y gornel. Hyd yn hyn, does neb wedi gallu enwi'r cwsmeriaid – ydych chi?



4 Kinmel Terrace, Llandyrnog

Locally bred and home-killed meat

Hours of business:

Monday — closed

Tuesday-Friday 8am–5:30pm

Saturday 8am–2pm

Deliveries daily throughout the area

Sul y cofio



Gosodwyd torchau gan Barbara Royles, ar ran teulu Peter Edwards, a fu farw yn Rhyfel y Malvinas; Ruth Griffith, ar ran Cyngor Cymuned Llandyrnog; Merfyn Parry, ar ran Cyngor Sir Ddinbych a Jack Crowther, ar ran plwyfi Llandyrnog a Llangwyfan. Roedd Karen Morris eisoes wedi gosod torch ar ran y Brownies.



Teyrnged i'r rhai a gollodd eu bywydau – un o nifer yn y pentre.



Y gwasanaeth ar Sul y Cofio



Cerrig wedi'u peintio gan Ysgol Bryn Clwyd

hgweb
designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882

07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

Merched byddin y tir

Ym mis Rhagfyr 1941, daeth y Ddeddf Gwasanaeth Cenedlaethol i rym. Roedd yn caniatáu i ferched gael eu galw i'r lluoedd arfog neu i wneud gwaith hanfodol ar gyfer y rhyfel – roedd y dewis gan y merched. Erbyn 1943, roedd rhagor na 80,000 o ferched yn gweithio ym Myddin y Tir – y *Land Girls* oedd eu llysenw.

Byddai'r merched yn gwneud ystod eang o waith gan gynnwys godro gwartheg, wyna, rheoli dofednod, aredig, hel cnydau, agor ffosydd, dal llygod mawr a gwaith cynnal a chadw. Roedd yr oriau'n hir, yn enwedig yn ystod yr haf, y tu allan gan amlaf ac yn aml yn yr oerfel a'r glaw. Doedd prin ddim hyfforddiant a'r disgwyl oedd iddyn nhw ddysgu wrth eu gwaith. Eu llety oedd y ffermydd lle'r oedden nhw'n gweithio neu hosteli.

Roedd cefndir amrywiol iawn i'r merched hyn, a mwy na thraean ohonyn nhw'n dod o Lundain a dinasoedd mawr eraill. Roedd hiraeth ar rai ac ar y dechrau, roedd nifer o ffermwyr yn amheus o gyflogi merched ifanc ar eu ffermydd. Ond buan iawn daethon nhw i sylweddoli pa mor ddefnyddiol roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw.

Aeth un ffermwr lleol gam ymhellach i sicrhau na fyddai ei *land girl* ddefnyddiol yn ymadael, fel y clywn yn hanes Jane Rowley Williams gan ei mab, Peter.



Roedd Mam yn ei harddegau ac yn byw gyda'i rhieni (fy nhaid a fy nain i) yn yr Aifft, pan ddechreuodd y rhyfel yn 1939. Roedd yn rhaid i'r teulu ddychwelyd i Loegr yn gyflym. Roedd y daith adre yn mynd drwy Ffrainc ac fel arfer yn ystod y nos mewn trên a oedd yn

cuddio'i oleuadau er mwyn osgoi awyrennau a oedd yn bomio.

Roedd dyddiau ysgol Mam yn dod i ben a'r unig beth roedd hi'n difaru oedd ei bod hi wedi methu mynd i'r brifysgol oherwydd y rhyfel. Byddai wedi bod wrth ei bodd yn astudio hanes.

Roedd Taid a Nain yn poeni am ddiogelwch fy mam, felly penderfynwyd y byddai Byddin y Tir yn addas iddi, gan ei bod hi'n hoff iawn o gefn gwlad. Trwy gysylltiad teuluol yng Ngogledd Cymru, cyrhaeddodd Mam Glyn Arthur ddiwedd 1940, yn 17 oed. Byddai wrth ei bodd yn sôn am ei hargraff gyntaf o'r lle, 'Mae hyn yn edrych yn dda. Eto, ychydig wedyn pan gyfarfu hi â 'nhad, meddylodd,

'Mae o'n edrych yn dda hefyd!'

Felly, dechreuodd ei bywyd ar y fferm ac roedd hi'n gorfod dysgu godro gwartheg â llaw; magu lloeau; harneisio a gyrru gwedd o geffylau; gwneud tasau yd; gofalu am ddefaid, moch ac ieir a garddio. Gan nad oedd trydan wedi cyrraedd Glyn

A. JONES CARPET FITTING & CLEANING

Carpet Fitted/Re-fitted/Repaired & Supplied
Underlay and Accessories Supplied
www.carpetfitter-ajones.co.uk

Pomegranate Floor North Wales

Domestic/Commercial Dry Carpet Cleaning
www.pomegranatefloornorthwales.com

Freephone: 0800 180 4803 Mobile: 07900 907253

Merched byddin y tir: parhad



Gyrru ceffyl a throl wair

Arthur erbyn dechrau'r 1950au, byddai'n paratoi'r lampau paraffin bob dydd. Dywedai y byddai hyn yn cymryd awr bob bore.

Wrth i'r rhyfel ddod i ben, dywedai Dad yn aml (â'i lygaid yn pefrio) ei fod wedi sylwi ei fod ar fin colli cowmon a gwas fferm ardd-erchog, felly cynigiodd eu bod yn priodi. Yn ffodus iddo yntau (ac i ni), derbyniodd Jane y cynnig.

Priodwyd y ddau yn 1945, uniad a barodd bron iawn 50 mlynedd.

Peter Rowley Williams

Bu merch o'r new Jean Dutton o Salford, Manceinion yn gweithio yn Nhy'n Llan yn ystod yr ail ryfel byd. Dyma'i geiriau hi am ei phrofiad cyntaf o'r pentref:

A stranger was I to the beauty around me,
never before had my feet ever trod
upon such fields: nor had my eyes seen
this beautiful work of God.

The meadows green and winding lanes
have set my weary soul at rest. Where
else could I roam and find such things
with heavenly touch, so blest?

It is true I've learned to love thee thy
mountains

And thy vales, I pray that I may ever stay
in this,

My new home in Wales.

(Diolch i Olga Evans am y cyfraniad hwn)



Gweithio ar ochr y bryn uwchben Glyn Arthur

Oriau agor Swyddfa'r Post

Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener

9am–12pm, 3pm–5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30

01824 790310



Prompt Travel

Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles

24 hrs 7 days a week



01824 790485

07974 862027

Teithiau Prydlon



Tacsi a Hurio Preifat

Gair gan y Rheithor

‘Wele, bydd yr wyryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Emaniwel’, hynny yw, o’i gyfieithu, ‘Y mae Duw gyda ni’. Mathew 1:23

Adeg y Nadolig fe ddylem fod yn edrych ymlaen at ddathlu geni Crist, gyda’n teulu a’n ffrindiau. Erbyn hyn fe ddylem fod yn cynllunio partïon Nadolig, dramâu’r Nadolig a chyfleoedd i’r teulu ddod at ei gilydd, ond mae eleni’n wahanol. Dydyn ni ddim yn siŵr a ydyn ni’n cael cyfarfod â’r teulu a gweld y rheini nad ydyn nhw’n byw yn y cyffiniau. Rydyn ni’n gobeithio ac yn gweddïo y byddwn yn gallu dod at ein gilydd ond yn sylweddoli ei bod yn rhaid i ni gadw at ganllawiau’r llywodraeth.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn anodd i bawb. Ar ddechrau’r flwyddyn, roedd hi’n amhosib dychmygu beth oedd ar fin digwydd. Cofiw’n am bawb sydd wedi colli anwyliaid, pawb sy’n gofalu am bobl, a phawb sydd â’u busnes a’u bywoliaeth wedi dioddef o ganlyniad i’r Coronafeirws. Rydyn ni wedi dysgu nifer o bethau ac nid y lleiaf o’r rhain ydy bod pobl yn garedig ac yn ofalgar ac yn fodlon cefnogi’i gilydd ym mha ffordd bynnag sy’n bosib.

Wrth i ni baratoi ar gyfer yr Adfent a’r Nadolig, rydyn ni’n gwybod na fydd eleni’r un fath. Ond mae Adfent yn gyfnod i baratoi ar gyfer dyfodiad Crist ac mae neges y Nadolig yn dal i fod yr un fath – daeth Crist i’r byd yn faban bach ym Methlehem. Emaniwel, ‘Duw gyda ni’. Iesu, y rhodd fwyaf oll. Ac mae Duw gyda ni bob dydd, ddim ond i ni agor ein llygaid a’i weld.

Aeth dyn ifanc am dro yn y parc i gael ychydig o awyr iach. Gwelodd hen ddynes yn eistedd ar fainc ac roedd hi’n edrych braidd yn drist. Felly penderfynodd eistedd wrth ei hymyl a threulio ychydig o amser gyda hi. Pan aeth y dyn ifanc adre, gofynnodd ei fam iddo, ‘Beth wnest di sy’n gwneud i ti edrych mor hapus?’ ‘Ces i sgwrs gyda Duw,’ atebodd, ‘Mae ganddi’r wên hyfrytaf.’ Yn y cyfamser aeth yr hen ddynes adre a gwenodd ei merch arni,

‘Rydych chi’n edrych yn hapusach, beth wnaethoch chi heddiw?’ ‘Eistedd ar fainc a siarad â Duw. Wyddost di, mae’n iau o lawer nag roeddwn i wedi’i ddychmygu.’

Mae Duw gyda ni. Mae llawenydd a heddwch y Nadolig yn dod aton ni i gyd hefyd. Mae’n dod i ganol ein bywydau pob dydd, hyd yn oed, ac efallai pan na fyddwn yn ei ddisgwyl yn yr adeg ryfedd hon. Cawn ein galw i ystyried dirgelwch Duw wedi’i eni i’n dynol ryw ni yn y ffyrdd mwyaf annisgwyl.

Bydd, mi fydd pethau’n wahanol yn ein cartrefi ac yn yr eglwys eleni. Ni fyddwn yn gallu cael gwasanaeth *Christingle* na gwasanaeth y Preseb eleni. Yn ystod wythnos y Nadolig fe fydd preseb bychan ym mhorth yr eglwys, ac ychydig o angylion a bugeiliaid, gobeithio.

‘Y mae’r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw’r tywyllwch wedi ei drechu ef.’ Ioan 1:5.

Boed i Dduw fod gyda chi’r Nadolig hwn ac yn fythol.

Val Rowlands



Nodiadau o Blas Ashpool

On'd ydy hwn yn gyfnod cythryblus? Cyfnod clo dros dro yma ac acw, gobaith am frechiad, a'r pantomeim mwya erioed draw dros y don! A ddaw pob peth yn ôl i'r un drefn byth eto?

Daeth fy âwyr ieuengaf adre o'r ysgol y diwrnod o'r blaen yn cyhoeddi, gyda balchder mawr, ei fod wedi cael rhan yr asyn yn nrama Nadolig yr ysgol a bod yr ysgol yn mynd i'w recordio. Efallai fod hyn mor ddieithr i fy nghenhedlaeth i, ond iddo yntau dyma'r peth mwyaf cyffrous erioed. Dyna brofi ein bod ni i gyd yn gweld digwyddiad yn ein ffordd unigryw ni ein hunain.

Yn dilyn fy 'rhestr hapusrwydd' y mis diwethaf, rwy wedi bod yn ymdrechu i ddilyn fy nghyngor fy hun. Gweithgareddau yn y cartref sydd wedi bod amlycaf, gan fod y tywydd wedi bod mor wlyb, ac felly rwyf wedi gwacáu droriau a'u glanhau, ac wedi ail-drefnu'r pantri'n llwyr (feiddiwn i ddim cyfaddef faint o jariau jam, siytni a marmaled 'go hen' y cefais i hyd iddyn nhw ar y silffoedd). Rwyf wedi sgwrio lloriau a glanhau ffenestri. Ar y cyfan, mae hi wedi bod yn fis boddhaol iawn o ran nifer o orchwylion rwy wedi'u cwblhau – fel arfer byddwn i wedi ceisio osgoi gwneud y rhain.

O ran y pwynt 'sylwi ar fywyd gwyllt' ar fy rhestr, rwy wedi bod yn llwyddiannus eto. Bob min nos yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae heidiau o wyddau wedi bod yn ymgasglu ac yn treulio'r noson yn y caeau o sofl India-corn o flaen y tŷ. Wrth iddi nosi, ar yr adeg pan rwy fel arfer yn cau'r ieir, mae sŵn cri'r gwyddau wrth iddyn nhw ddod at ei gilydd wedi bod yn wych. Fe fydddech yn taeru eu bod nhw'n galw enwau'i gilydd ar yr un pryd, yn rhoi cyfarwyddiadau i'w gilydd ac yn trafod anturiaethau'r dyfodol i gyd ar yr un pryd. Yna, yn sydyn, maen nhw i gyd yn distewi wrth iddyn nhw setlo am y noson.

Golygfa arall debyg rwy wedi'i gweld yw'r brain yn hel at ei gilydd wrth iddi noson, golygfa eitha tebyg i furmuriad drudwy. Er nad yw'r olygfa hon yr un mor wych, maen nhw'n dod at ei gilydd mewn niferoedd mawr iawn,

yn troelli am gryn dipyn o amser gan wneud twrw rhyfeddol, nes iddyn nhw glwydo yn y coed a bydd y lle'n ddistaw eto.

Fe welais i rywbeth cyffrous iawn yn ystod y mis diwetha, ac rwy'n gobeithio y bydd rhai ohonoch yn gallu fy rhoi ar ben y ffordd. Ger yr afon yn Llanynys, a oeddwn i'n iawn yn tybio 'mod i wedi gweld dau grychdydd (*crane*)? Roedden nhw'n adar mawr gwyn â choesau hir. Neu tybed ai crehyrod bach copog (*egrets*) oedden nhw? Dydw i ddim yn siŵr, ond beth bynnag, roedd hi'n olygfa hyfryd.

Ar hyn o bryd dydyn ni ddim yn siŵr gyda phwy y byddwn ni'n dathlu'r Nadolig, ond wrth baratoi rwy wedi cael pleser mawr yn edrych ar yr hen ryseitiau hoff. O'r pwddin 'Dolig i'r treiffl, mae'r holl hen ffefrynnau yno. Er y bydd yn rhaid i mi gynnig dewisiadau figan a llysieuol, on'd ydy hi'n gysur gwybod y bydd traddodiadau penodol yn helpu bob amser i'n cadw ni'n agos at ein teulu, ein ffrindiau, ein cymdogaeth a'n lle ynddo, er gwaethaf holl ddryswch y cyfnod hwn.

Dwi heb sôn am yr ardd o gwbl y mis yma, ond dwi heb anghofio amdani. Bob dydd rwy'n gweld blodyn neu'n clywed aroglau i lonni'r dyddiau tywyll, ac fel erioed, gallwn edrych ymlaen at y flwyddyn nesa gyda'i holl ogoniant naturiol.

Felly, tan y flwyddyn nesa, gobeithiaf y gallwn bawb fwynhau'r Nadolig hwn, waeth ar ba ffurf bynnag y bydd, a pharhau i fwynhau'r garddio.

Fiona Bell

Aelodau'r Pwyllgor:

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones Evans (cyfieithwyr), Anne Rowley-Williams, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).

Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com

Ffeithiau'r Nadolig

Pam mae trwyn Rwdolff wirioneddol yn goch

Mae Rwdolff y Carw Trwyngoch dros 80 oed ac erbyn hyn rydyn ni'n gwybod bod rhywfaint o sail wyddonol i'r trwyn coch.

Mae ymchwilwyr yn Sweden wedi defnyddio camerâu delweddu thermal i ddangos gwres cyrff ceirw wrth iddyn nhw bori. Er bod y rhan fwyaf o gorff carw wedi'i inswleiddio'n dda, mae ei drwyn yn sgleinio'n oren llachar oherwydd ei fod yn rhyddhau cymaint o wres. Mae'r rheswm yn syml: mae llawer iawn o lestri gwaed yn ei drwyn a'i wefusau'n gynnes ac yn sensitif wrth iddo chwilio am fwyd yn yr eira.

(o'r *Village Voice*, Rhagfyr 2014)

Ffeithiau am fwyd a thraddodiadau'r Nadolig

Ffordd o gadw (*preserve*) cig gyda ffrwythau oedd tarddiad *mincemeat*. Mae'r cyfuniad o asidau'r ffrwythau a'r siwgr yn atal bacteria rhag tyfu, yn enwedig y bacteria peryglus sy'n achosi *botulism*.

I ddechrau, roedd y pwdin Dolig yn fath o uwd o'r 14eg ganrif o'r enw *frumenty*, ac roedd yn cael ei fwyta fel pryd yn ystod cyfnod o ymryd. Yn 1664, cafodd ei wahardd gan y Piwritaniaid fel 'arfer anwedus ac anaddas i bobl dduwiol'. Ond fe ddaeth yn boblogaidd unwaith eto. Honnir bod mwy na 40 miliwn o bobl yn gorffen cinio'r ŵyl gyda phwdin Nadolig.

Yn draddodiadol, wrth baratoi'r pwdin 'Dolig, dylech ei droi o'r dwyrain i'r gorllewin i goffáu ymweliad y Doethion â'r baban Iesu. Daeth y ffefryn adeg y Nadolig, y twrci, yn boblogaidd mewn ciniawau Nadolig tua 1650 ar ôl i bobl o Ewrop wladychu Gogledd America. Cyn hyn, roedd y prydau poblogaidd yn cynnwys cig paun, baedd ac alarch.

Mae'r goeden Nadolig yn deillio o'r Almaen yn y 19eg ganrif a daeth i Brydain ac America drwy mewnfudwyr o'r Almaen i Pennsylvania.

Yn ôl y traddodiad, mae *Stollen*, y bara o'r Almaen, yn cynrychioli'r baban Iesu mewn cadachau.

Mae'r Boncyff Nadolig yn deillio o wyliau paganaidd Sgandinafia a ymledodd o gwmpas Ewrop yn ystod goresgyniadau'r Llychlynwyr. Byddai'r boncyff yn cael ei gymryd adref a'i losgi am y 12 diwrnod Nadolig a'r gweddillion yn cael eu cadw am lwc. Byddai rhai pobl yn cael eu gwahardd rhag cynnau boncyff y Nadolig gan gynnwys pobl â thro yn eu llygaid, merched troednoeth a phobl â thraed fflat.

Mae'r traddodiad o hongian hosan Nadolig yn deillio o St Niclas yn gadael rhodd o ddarnau arian aur yn hosanau tair merch dlawd roedd angen arian arnyn nhw am eu gwaddol priodas. Roedd y merched wedi hongian eu sanau ger y tân i'w sychu.

Yn 336 Oed Crist pennodd arweinwyr Cristnog-aeth y dyddiad 25 Rhagfyr ar gyfer y Nadolig i geisio disodli gŵyl baganaidd boblogaidd yn Rhufain (Satwrnalia) a oedd yn dathlu byrddydd gaeaf.

Roedd Siôn Corn yn gwisgo dillad coch a gwyn oherwydd ei yrfa'n gynharach yn esgob – byddai ei ddillad crefyddol wedi bod yn goch a gwyn (does dim cysylltiad o gwbl rhwng hyn a hysbysebion diod enwog).

(Diolch i Russ Jones am gyflenwi'r wybodaeth uchod – o'r *Village Voice* mis Rhagfyr 2001)

Cyfarchion y Nadolig

Dymunwn Nadolig Llawn iawn a Blwyddyn Newydd hapus ac iach i'n cymdogion ac i'n ffrindiau.

Elwyn, Olga ac Elwen, Ger y Llan, a Margaret Evans, Awel y Foel.

Dymunwn lawenydd i bawb dros wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Bryn ac Anwen, Bryn Ffolt.

Digwyddiadau mis Rhagfyr yn y gorffennol

- 2:** 1898 – bu farw Michael D. Jones, 76, sefydlydd Y Wladfa ym Mhatagonia.
- 3:** Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anabledd.
1931 – cyhoeddwyd Llyfr Mawr y Plant gan J. O. Williams a Jennie Thomas (cyh: Hughes a'i Fab, Wrecsam).
1955 – sefydlwyd Undeb Amaethwyr Cymru mewn cyfarfod yng Nghaerfyrddin.
- 4:** 1977 – Cwpan y Byd Dartiau yn cael ei chynnal am y tro cyntaf a Chymru'n ennill, diolch i Leighton Rees.
- 7:** 1916 – etholwyd David Lloyd George yn brif weinidog y Deyrnas Unedig. Ar y pryd roedd Billy Hughes yn brif weinidog Awstralia, ac yntau'n siarad Cymraeg hefyd.
- 10:** 1631 – bu farw Syr Hugh Myddelton, Dinbych, y gŵr a greodd system ddŵr Llundain.
- 11:** 1282 – bu farw'r Tywysog Llywelyn ein Llyw Olaf (neu Llywelyn II).
- 14:** 1918 – merched yn cael pleidleisio am y tro cyntaf mewn Etholiad Cyffredinol yng ngwledydd Prydain, ond dim ond y rhai dros 30 oed.
- 15:** 1969 – creu Abertawe yn ddinas.
- 16:** 1905 – Curodd Cymru'r Crysau Duon 3-0 ym Mharc yr Arfau.
- 20:** 1955 – cyhoeddwyd Caerdydd yn brif-ddinas Cymru.
- 24:** 1930 – hostel leuenctid gyntaf Prydain yn agor yn Neuadd Pennant, Dyffryn Conwy.
- 27:** 1858 – Ganwyd Syr J. Herbert Lewis, mab Elizabeth Roberts, Plas Llangwyfan. Ef oedd cadeirydd cyntaf Cyngor Sir y Fflint a bu'n Aelod Seneddol rhwng 1892 ac 1922 a daliodd swydd y Prif Chwip. Drwy ei ymdrechion a'i ddyfalbarhad ef y sicrhawyd grantiau i godi Amgueddfa Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Iddo ef hefyd y mae'r diolch am gynllun pensiwn i athrawon.



Baa Stool is a range of luxury British sheepskin furniture and home accessories with removable covers lovingly created in our workshop at The New Barn,
13 Vale Park,
Colomendy Industrial Estate,
Denbigh LL16 5TA.
www.baastool.co.uk
01824 790882



Professional and personal
Foot Care in the comfort
and privacy of your own
home.

Treatments Include:

- ✂ Corn/Callus Removal
- ✂ Diabetic Foot Care
- ✂ Nail Trimming
- ✂ Thickened Nails
- ✂ Athlete's Foot
- ✂ Fungal Nails
- ✂ Cracked Heels
- ✂ Ingrown Toe Nails
- ✂ Verrucae
- ✂ Foot Care Advice

Initial Assessment **FREE**

01824 735070

07387 583971

dyffrynfootcare@gmail.com

<http://dyffrynfootcare.com>

Dyffrynfootcare
 @dyffrynfootcare



Dewch am dro gyda Bryn

Os hoffech chi fynd am daith ddwy filltir o hyd, gyda golygfeydd hyfryd i bob cyfeiriad, dewch gyda fi. Bydd yn cymryd llai nag awr, ond sylwch fod camfeydd ar y daith sy'n anaddas i gŵn mawr a phobl sy'n cael trafferth â'u cluniau a'u pennau gliniau! Os nad ydych yn gyfarwydd â'r ardal, ewch â map OS 265 gyda chi.

Parciwch ger y gilfan wrth gât fferm Bancar, ond cadwch i'r ochr rhag ofn y bydd angen i gerbydau llydan fynd heibio i chi.

Wynebwnch ddau gât y fferm, ewch drwyddyn nhw a cherddwch yn eich blaen, gyda'r siediau ar y dde i chi. Ewch dros y gamfa gynta, wedyn yr ail a cherddwch yn eich blaen at y drydedd.

Ar ôl i chi fynd dros y drydedd gamfa hon (sydd ag arwydd llwybr troed arni), cerddwch am y gât ym mhen ucha'r cae, i'r chwith o dderwen. Pan fyddwch yn cyrraedd y gât, trowch i'r dde a cherddwch tuag at Islwyn, y tŷ â'r sgaffaldau o'i gwmpas (er nad ydych yn gallu gweld hwn ar unwaith). Mwynhewch yr olygfa wrth i chi gerdded.

I lawr i'r dde o Islwyn, fe welwch gamfa (rhybudd: mae hi'n serth iawn i lawr ochr arall y gamfa). Mae hon yn mynd â chi at y lôn.


Trowch i'r chwith i fyny'r lôn, bydd Coed Coppi Coppi Fancar ar y chwith pan fyddwch yn troi i'r dde am y llwybr ceffylau sy'n mynd i gyfeiriad Fron Yw. Dilynwch y llwybr cerrig am ryw 200 metr, a chwiliwch i'r dde am gât mochyn ar waelod y parc. Croeswch y parc i lawr at hwn. Mae llawer o'r gatiau hyn wedi'u gosod yn ddiweddar yn lle camfeydd.

Pan fyddwch wedi cyrraedd y gât honno, chwiliwch am y gât nesa ac ewch i lawr tuag ati, heibio'r coed derw ar y chwith i chi. Ewch drwy'r gât, a gan gadw'r gwrych ar y dde i chi, ewch i ben draw'r cae hwnnw. Byddwch yn gweld gât arall eto, ar y dde i chi. Pan ewch chi drwy'r gât hon, byddwch chi ar y lôn ac yn cerdded ar darmac am ychydig.

Ewch i'r chwith i lawr y lôn, rownd y gornel a thrwy'r ail gât fferm ar y chwith – yr un sydd ag arwydd llwybr troed arni. Cadwch y gwrych ar y dde wrth anelu am y gât nesa a byddwch yn gweld buarth Bancar. Ewch ar draws y cae tuag at yr adeilad brics coch. Wrth i chi ddod yn nes ato, byddwch yn gweld gât i'r chwith ohono. Mae'r gât hon yn agor i'r buarth, ger y gilfan lle'r ydych chi wedi parcio. A dyna chi wedi cyrraedd y diwedd.

Gobeithio'ch bod chi wedi mwynhau – efallai cawn wneud yr un peth eto.

Bryn Davies



Ar ran holl dirfeddianwyr y fro: cofiwch gau gatiau ar eich holau pan fyddwch yn cerdded ar draws tir fferm.

Diolch o galon unwaith eto i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn ac am y cyfraniadau ariannol hael tuag at gynnal ein cylchgrawn.

Tri lle

Pan oedd y plant yn iau, dechreuais fynd â nhw ar wyliau i arfordir gorllewin Ffrainc. Bydden ni'n teithio mewn jîp Isuzu llawn i'r ymylon o geriach, gyda threlar bach yn cario byrddau syrffio i fannau fel La Tranche-sur-Mer, Royan a La Rochelle.

Yn ddiweddarach, fe fuon ni'n bellach i'r de, i gyfeiriad Biarritz. Fodd bynnag, un o'n hoff fannau oedd yr ardal o gwmpas Massanges, ar yr arfordir ger Vieux-Boucau-les-Bains. Roedd y gwyliau hyn yn gofiadwy iawn, a'r gwersyll-oedd yn wych. Gofynnwch i unrhyw un o'r plant: dyma'r gwyliau teulu gorau erioed.

I ddathlu fy mhen blwydd yn 50 oed, roeddwn i am fynd i Wlad Thai a bacpacio ychydig cyn i mi fynd yn rhy hen. A dyna wnaethon ni. Hedfan o Fanceinion trwy Dubai, ac ymweld â Phuket, Ynysoedd Phi Phi a Ko Lanta. Teithio ar y tacsis dŵr i ymweld ag ynys-oedd bach eraill, gan gynnwys yr ynys enwog a gysylltir â James Bond. Roedd y tacsis dŵr hyn yn eitha syml – cwch hir gyda hen beiriant disel cerbyd Isuzu ar y cefn a phropelor hir wedi'i weldio i'r *flywheel*. Os byddwch chi'n mynd ar un o'r rhain rywbyrd, eisteddwch yn y pen pella – dyna'r man mwyaf diogel, mae'n siŵr.

Roedd gwlad Thai yn newid llwyr i ni'n dau, yn enwedig Ko Lanta a oedd allan o'r ardal-oedd twristaidd. Gair bach o gyngor – os ydych chi'n ystyried mynd yno, peidiwch â mynd i'r marchnadoedd bwyd awyr agored, oherwydd mae pryfed dros bopeth yno. Ond roeddwn i wedi anghofio'r cyfan am hyn pan oedd fy mwyd yn cael ei goginio mewn cegin awyr agored ar Long Beach y noson honno. Cawson ni groeso ardderchog gan bawb, a gweld traethau a machludoedd gwyach.

Mae'r ddau ohonon ni'n mwynhau trefnu'n teithiau, gan gadw llygad fanwl ar y geiniog, felly rydyn ni heb wario'n wirion ar ein gwyliau. Trwy aros gyda'r bobl leol a theithio yn eu plith rydyn ni'n cael blas go iawn ar y lleoedd rydyn ni wedi ymweld â nhw.

Rydyn ni hefyd wedi ymweld â Sri Lanka

ddwywaith. Fe fuon ni'n bacpacio eto, trwy leoedd fel Kandy. Yn gyd-ddigwyddiad rhyfedd, roedd tîm Lloegr yn chwarae criced yma ac fe ddaethon ni ar draws y Barmy Army un noson mewn tafarn, yr Hipsters Hideaway. Gwelson ni ffrindiau Hilary yno hefyd, Sophie a Mai Austin.

Mae Kandy yn dref brysur, a fyddwn i ddim yn hoffi aros yno'n hir. Cymeron ni drên o Kandy i Nuwara Eliya – y trên yn debyg i'r rheini rydych chi'n gweld ar y teledu yn teithio drwy India, yn llawn i'r ymylon a phobl yn hongian ar y drysau. Yn ffodus, fe gawson ni sedd.

Roedd y bobl leol yn gyfeillgar iawn a'r plant bach yn rhyfeddu at wallt melyn a llygaid glas Hilary. Roedden nhw'n dod draw i siarad â ni drwy'r amser ac i gyffwrdd â hi.

Pentre bach yn y bryniau yw Nuwara Eliya, ac yno fe fuon ni i blanhigfa de yno a cherdded i fyny Adam's Peak, gyda golygfeydd anhygoel a rhaedrau anferth.

Wedyn teithio i lawr i arfordir y de ac aros mewn lleoedd amrywiol ar hyd y daith yn ôl i



Hilary a Merfyn yn Nuwara Eliya

Tri lle: parhad

Colombo – Tangalle, Hiriketiya a Madiha, gerllaw bwyty enwog Doctor's House. Bu farw tua 50,000 o bobl yn yr ardal yn tswnami Gŵyl San Steffan 2004.

Cefais ddathlu fy mhen blwydd yn 60 oed yn Mirissa, gan aros yn Unawatuna am noson. Dyma lle y cafodd cyfres *The Good Karma Hospital* ei recordio. Cysylltais â ffrind roedden ni wedi cwrdd ag o ar ein hymweliad cyntaf ac fe gawson ni ginio gyda'n gilydd. Aeth â ni yn ei Tuk Tuk i ddangos y tŷ newydd roedd wedi'i adeiladu, ac yntau'n falch iawn o'i gampwaith. Wedyn aethon ni i fyni i draeth Hikkaduwa ac ymweld â Galle Fort, sy'n dangos dylanwad yr Iseldiroedd. Rwy mor falch i ni ymweld â'r wlad ddwywaith er mwyn gweld cymaint o'r wlad brydferth hon.

Rwy'n gobeithio'n arw nad yw'r teithio wedi dod i ben, gan ein bod am ymweld â sawl lle eto.

Merfyn Parry



Capel y Dyffryn

Gweithgareddau'r Adfent

Nos Fercher, 2, 9 ac 16 Rhagfyr:

7.30pm – Astudiaethau Adfent

Dydd Sul, 6:

10.30am – Parti Nadolig ar-lein yr Ysgol Sul

Dydd Sul, 13:

2pm – Gwasanaeth Nadolig yn y Capel

5pm – Cwis Teuluol – addas i bawb o bob oed

Dydd Sul, 20:

2pm – Canu Carolau mewn ceir, yng Nghlwb Rygbi Dinbych

Nos Fercher, 23:

7.30 pm – Gwasanaeth Carolau ar-lein

Dydd Sul, 25:

9.45am – Gwasanaeth bore Nadolig ar-lein



Rysait

Relish tomato

2 bwys o domatos

3 nionyn maint canolig – wedi'u plicio a'u torri

$\frac{3}{4}$ pwys siwgr

1½ llwy fwrdd o flawd

1 llwy fwrdd o fwstard sych

1 llwy fwrdd o bowdwr cyri

Finegr



Tywalltwch ddŵr berw dros y tomatos, wedyn tynnwch y croen a'u torri. Cymysgwch y tomatos a'r nionod a thaenwch llwy fwrdd o halen drostyn nhw. Gadewch nhw dros nos.

Gwaredwch yr hylif.

Ychwanegwch finegr i orchuddio'r tomatos a'r nionod.

Ychwanegwch y siwgr, blawd, mwstard sych a phowdwr cyri.

Berwch y cymysgedd am tua 10 munud.

Gadewch i oeri a'i roi mewn jariau.

Ruth Griffith

Tambo's Total Care Garden Maintenance

Gardening

Fencing

Tree Work

Turfing

Hedges

Logging

Pressure Washing

Contact Oli Williams

Mob: 07501022017

Email: ohwwilliams75@gmail.com

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd y Cyngor Cymuned

- * Mae'r fainc newydd y gofynnwyd amdani wedi cyrraedd ac mae'r Cyngor yn disgwyl trwydded gan Gyngor Sir Ddinbych i'w gosod ger croesffordd Celynog.
- * Mae Refill Wales yn chwilio am leoedd addas ledled Cymru i annog pobl i ail-lenwi poteli dŵr. Gan nad oes tapiau dŵr cyhoeddus yn Llandyrnog, y gobaith yw y bydd un o'r tafarndau lleol yn cymryd y cynnig.
- * Yn dilyn cais gan y Cyngor Cymuned, ymwelodd Swyddog Diogelwch Prifffyrdd Sir Ddinbych â'r pentre a gwnaeth arolwg gweledol cynhwysfawr. Ei farn oedd nad oes angen mesurau ychwanegol i arafu'r traffig, ond roedd yn fodlon, os oes rhaid, i osod offer mesur cyflymder traffig yn y dyfodol.
- * Cafwyd adroddiad ar lafar fod Beech Developments a fyddai'n gyfrifol am y datblygiad newydd ym Maes Llan yn awyddus i gydweithio â'r gymdogaeth ac yn gobeithio cyd-drafod yn y dyfodol.
- * Yr Ystafelloedd Coco – mae'r Cyngor wedi cael tri phris ar gyfer carped newydd a'r penderfyniad oedd gofyn i Coastal Carpets wneud y gwaith. Mae perchnogion y cwmni, Mr a Mrs Bradley yn byw yn y pentref ac maen nhw wedi cynnig gost-yngiad sylweddol fel cyfraniad at y pentref.
- * Parcio anystyriol – mae'r plismon cymunedol lleol wedi bod yn cadw golwg ar y sefyllfa ac wedi gwneud ambell ymweliad, mae'n ymddangos fel petai'r sefyllfa wedi gwella.
- * Offer chwarae – mae'r Cyngor wedi cael tri phris, ac un cwmni wedi cyflwyno pris sylweddol is. Roedd y Clerc wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor Cymuned yr Hob sydd wedi cael offer gan y cwmni a oedd wedi cynnig y pris isaf (Wicksteed). Roedd y Cyngor hwnnw'n fodlon gydag ansawdd y gwasanaeth a gynigiwyd ac mae'r Clerc yn mynd i ymweld â'r maes chwarae. Cyn derbyn y pris, penderfynwyd dangos yr offer chwarae y bwriedir eu gosod drwy osod posteri ger yr ysgol, swyddfa'r post ac yng Nghae Nant.
- * Coeden Nadolig – penderfynwyd gofyn caniatâd swyddogion yr Eglwys i osod coeden Nadolig yn y fynwent. Petai'r caniatâd yn cael ei rhoi, dylid mynd ati i archebu coeden.
- * Mae cynrychiolydd gweithgar iawn gan y Cyngor Cymuned ar Bwyllgor Cyfeillion Ysbyty Rhuthun a dywedwyd bod y tîm ar fin dechrau cyfarfod eto, ond yn rhithiol.
- * Roedd y Cyngor Cymuned wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau £3000 gan gronfa Sir Ddinbych sy'n cyfrannu tuag dalu trethi busnes. Does dim cyfnod penodol nac amodau i'r taliad.
- * Banc Bwyd (Trussell Trust) – penderfynwyd cyfrannu £200 at fanc bwyd Dinbych. Mae'r swyddogion wedi cadarnhau eu bod yn cefnogi rhai teuluoedd lleol sydd wedi'u cyfeirio at y banc am gymorth yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- * Diolchwyd i'r aelodau am eu cymorth yn plannu blodau'r gaeaf ar y gylchfan. Gobeithio y bydd y rhain yn rhoi ychydig o liw i'r pentre dros y gaeaf. Prynwyd y planhigion o ganolfan arddio Green Fingers. Diolch hefyd i'r Brownies am gynnal y bocs blodau yng nghanol y pentre ac i'r unigolion sy'n gofalu am y bocsys yn arhosfan bysiau Llangwyfan.
- * Cynllunio - doedd dim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio i leihau arwynebedd llawr y cais a ganiatawyd eisoes i ymestyn Bryn Coch, Fforddlas.

James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa Westminster: 0207 2194606

Apêl y Nadolig

Nodyn i'ch atgoffa y bydd bocsys esgidiau ar gyfer pobl ddigartref yn Wrecsam yn cael eu casglu yn ystafell waelod Neuadd y Pentre, dydd Sadwrn 5 Rhagfyr, 10am–1pm. Bydd canllawiau iechyd a diogelwch COVID-19 yn cael eu dilyn. Lapiwch eich bocsys mewn papur Nadolig. Wedyn rhowch bag plastig amdano fel ei bod hi'n bosib ei lanhau'r drylwyr. Rhowch label ar y bag plastig (mae ysgrifennu gyda phen ffelt neu rywbeth tebyg yn ddigon) ac ar y papur Nadolig – i ddyn neu ferch, neu barsel bwyd yn unig. Mae llawer mwy o alw am nwyddau i ddynion nag i ferched.

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer yr hyn y gallech ei roi yn y bocsys (byddai'r trefnwyr yn gwerthfawrogi bocsys bwyd yn unig hefyd):

- ♦ Nwyddau ymolchi ac ati: past a brwsh dannedd, sebon cawod a siampw, *deodorant*, nwyddau siafio, weips wyneb, brwsh gwallt neu grib, nwyddau mislif ar gyfer bocsys i ferched, *moisturiser*.
- ♦ Dillad: het, sgarff, menig, sanau cynnes, belt, côt law/*poncho*, dillad isaf.
- ♦ Bwyd: bariau bach o siocled, melysion, bisgedi, bwyd mewn tun (sy'n agor wrth dynnu'r cylch), caniau pop. *Sachets* diodydd (coffi, siocled poeth). *Sachets* bwyd (cawl, *mugshots*).
- ♦ Eitemau eraill: llyfr nodiadau, pen a phensil; tortsh weindio; cyllyll, ffyrac a llwyau.

Peidiwch â rhoi alcohol nac arian, os gwelwch yn dda

Ni fydd pobl yn hel at ei gilydd dan do – dim ond dod drwy'r drws yng nghefn y neuadd sy'n mynd yn syth i mewn i'r ystafell waelod, gosod eich bocsy ar y bwrdd, a mynd allan ar unwaith drwy'r drws arall. Gwisgwch fwgwd i ddod i mewn, os gwelwch yn dda. Os bydd y tywydd yn ffafriol, byddwn yn gallu gosod bwrdd y tu allan. Gofynnir yn garedig i chi gadw ddigon pell oddi wrth pobl eraill yn y maes parcio. Diolch o galon ymlaen llaw i chi.

Does dim byd newydd dan yr haul

Fel parhad i'r sylwadau yn rhifyn mis Tachwedd o'r *Llais*, am barcio anystyrlon, dyma un o'r materion a drafodwyd mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandyrnog, mis Rhagfyr 2001.

Dywedodd yr aelodau wrth Sergeant Kowal am eu pryderon ynghylch parcio yng nghanol y pentre ac ar y tro ger Sgwâr yr Eglwys. Ei gyngor oedd i unrhyw a fyddai'n gweld car a oedd wedi parcio mewn lle peryglus, yn eu barn nhw, ffonio'r heddlu yn Ninbych a bydd swyddog yn ymateb, fel arfer cyn pen 20 munud. Efallai nad yw cyngor Sergeant Kowal ynghylch ymateb yr heddlu yn berthnasol heddiw, ond pam ar y ddaear ydyn ni'n dal i drafod y broblem 19 mlynedd yn ddiweddarach?

Plus ça change, plus c'est la même chose, fel maen nhw'n dweud (po fwyaf yw'r newid, y mwyaf mae pethe'n aros yr un fath).



Llun a dynnwyd 19 Tachwedd



Llun a dynnwyd 24 Tachwedd

Nadolig yn Ysbyty Llangwyfan, 1952

Mae'r hanes hwn wedi ei gasglu o *Cwyfan Sanfare*, cylchgrawn Ysbyty Llangwyfan.

Noswyl Nadolig, roedd côr y staff yn ymweld â'r wardiau, a'r Swyddog Nyrsio Bill Caveney yn chwarae'r piano-acordion.

Ar Ddiwrnod Nadolig yn Bloc 4, cafodd y cleifion eu deffro gyda'r wawr, ac ar ôl gwneud, ac yfed llond bol o de, rhannwyd presantau ac agorwyd parseli oedd wedi dod o adref.

Yn ystod y bore, cafwyd ymweliad gan Siôn Corn, oedd yn debyg iawn i Mr Hall, Prif Weinydd Nyrsio'r Theatr! Roedd dau 'nyrs' oedd yn edrych braidd yn 'od' gydag o – sylweddolwyd yr un pryd bod dau aelod o staff ar goll yr adeg honno – Bob Deed, Myfyriwr Nyrsio a Bill Caveney, Swyddog Nyrsio!

Uchafbwynt y dydd oedd Cinio 'Dolig, a daeth y cleifion oedd yn gallu cerdded, i'r parti yn y stafell fwyta a Dr Mayers a Sister Murphy yn ymuno yn yr hwyl. Arweiniwyd y côr byrfyfyr gan Dr Mayers, gyda'i faton o goes gŵydd flasu! Ar y wardiau i fyny'r grisiau, roedd Dr Law yn sleisio'r ŵydd gyda help y nyrsys.

Ar ôl i'r perthnasau adael, daeth criw o'r 'graders' (y cleifion oedd ar eu traed drwy'r dydd yn gwneud gwahanol swyddi yn yr Ysbyty, neu o amgylch) yn dod at ei gilydd yn y Neuadd Adloniant i ddawnsio a chwarae gemau cerdd.

Yn Bloc 9, roedd y cleifion wrth eu bodd yn gwrando ar barti'r carolwyr ymhlith y staff, oedd wedi bod yn canu carolau yn y wardiau eraill. Roedd merched y staff wedi gwisgo'u clogynnau tu chwith allan i ddangos y leinin coch tu mewn. Roedd sgrechiadau mawr o lawenydd yn y Ward Plant drws nesaf wrth i Siôn Corn rannu ei bresantau.

Yn Bloc 6 roedd gramoffon symudol yn cael ei chwarae drwy'r dydd a daeth dynion oedd yn gleifion yn y 'Cytiau' draw i fod yn bartneriaid dawnsio i'r merched. Roedd Prif Nyrs Humphreys a'i staff yn rhannu'r cinio Nadolig ac yn gweini.

Roedd Bloc 7 wedi ei addurno'n arbennig iawn eleni. Yn lle'r celyn a'r cadwyni papur arferol, roedd pob ward yn cynrychioli gwlad wahanol. Roedd Prif Nyrs Evans wedi gyrru llythyr at y BEA a'r BAOC, ac wedi cael posteri teithio ardderchog.

Mi ddeffrodd y cleifion ar Bloc 3 fore 'Dolig a darganfod bod Siôn Corn wedi ymweld â nhw yn ystod y nos, a gadael hosan yn llawn presantau i bob claf.

Roedd y 'Cytiau', lle mae gwelyau'r rhan fwyaf o'r dynion, yn edrych fel llun allan o garnifal, a phob un â'i goeden Nadolig fach ei hun.

Yn ôl yr arfer, rhannwyd y Cinio Nadolig gan y staff gweinyddol a'r staff meddygol, ac roedd Dr Biagi, Dr Jackson a Miss Roberts yn torri'r cig.



Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn symudol: 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook

